**Cofnodion Cyfarfod Cyngor Cymuned Abernant**
**Neuadd Talog, Nos Iau, 5ed o Fedi, 2024**

**Yn bresennol:** Mr Ian Williams, Mr Chris Bish, Mr Rhun Llwyd, Mr Robin Williams, Mrs Gay Morgan Cynghorydd Mrs Jean Lewis, Mr Eirian Howells

**1. Sylwadau'r Cadeirydd:** Mi wnaeth y cadeirydd groesawu pawb i'r cyfarfod

**2. Ymddiheuriadau am absenoldeb:** Pawb yn bresennol

Fe ddechreuwyd y cyfarfod gyda Mr Aled Nicholas – Swyddog Cysylltedd Digidol gyda Chyngor Sir Gâr yn rhoi diweddariad ar gysylltedd ffibr o fewn yr ardal.
Mae yna brosiect gyda'r teitl 'Prosiect Gigabit' a fydd yn cymryd lle ym mis Tachwedd 2024, a fydd yn cefnogi fibr mewn ardal wledig. Gobeithir yn fawr iawn bydd ardal Abernant yn rhan o'r prosiect.

Fe wnaeth gyfeirio at gyswllt ffibr yn Ysgol Abernant. Mae'r cyswllt yma yn dod o dan reolaeth band eang y sector cyhoeddus (PSBA). Fe ellir defnyddio'r cyswllt yma, ond mi fydd yna gost. Mi fyddai rhaid adeiladu'r rhwydwaith. Fe wnawn nhw edrych mewn i'r costau gan gofio nad oes yna gyllid ar hyn o bryd.

Mae'r Cynllun Bargen Ddinesig Abertawe yn anelu at adnabod eiddo sydd yn gymwys. Mi fydd y cynllun yma yn dod i ben yn y flwyddyn 2026.

Opsiwn arall fyddai mynd am 'Shared Rural Network Scheme' sydd yn cael ei gydlynu gan Gyngor Sir Gâr. Mae yna grant ar gael trwy 'Access Broadband Cymru sydd ar gael ar gyfer llwybryddion 4G, technoleg lloeren 5G a Starlink - £250 ond cost fisol yn £75.

Mi fydd Mr Nicholas yn diweddaru ni gydag unrhyw ddatblygiad gyda'r 'Gigabit' ym mis Tachwedd.

**3. Cadarnhau cofnodion mis Gorffennaf :**
Cynnig: Mr Rhun Llwyd
Eilio: Mrs Gay Morgan

**4. Materion yn codi o'r cofnodion:**
(a) Dim diweddariad ar arwyddion coll – WM i gysylltu gyda Cyng Jean Lewis
(b) Nid oedd Katrina Gabillia medru bod yn bresennol i dderbyn y rhodd. Clerc i drefnu dyddiad newydd
(c) Diffibriliwr – fe hysbyswyd yr aelodau gan IW fod cynllun padiau wedi dod i ben. Mi fydd rhaid i'r Cyngor Cymuned dalu am badiau newydd. Mae'r cod (c) ar gyfer y difibriliwr yn aros y r'un peth ar hyn o bryd.

**5. Ysgol Abernant**
Doedd dim diweddariad i'w gyflwyno ynghlyn a datblygu ardal chwarae ar dir Ysgol Abernant.

**6. Swydd Clerc**
Mae'r clerc yn parhau i hysbysebu'r swydd. Mae Cyngor Cymuned Merthyr wedi penodi clerc newydd trwy Gyngor Sir Gâr. Clerc i ymholi

**7. Gohebiaeth**
Fe drafodwyd nifer o ohebiaeth a dderbyniwyd gan y Clerc

**8. Safle We**
Clerc i ofyn i Colin am luniau ar gyfer rhoi ar y gwefan. Lluniau o ddigwyddiadau ac ati. Clerc i ddanfon linc y wefan i'r aelodau

**8. I'w drafod**

(a) Codwyd pryderon ynghylch cau hewl ger pont Talog er mwyn neud gwaith ar lan yr afon. Fe wnaeth Cynghorydd IW e-bostio Joshua Phillips yn Cyngor Sir Gâr gan bwyntio allan nad oedd y llwybr amgen ar gyfer y bws yn cynnwys pentrefi Talog a Penybont. Teimlir gan yr aelodau y dylai fod 'na fws mini yn cludo preswylwyr o Dalog a Penybont.

Cynghorydd Jean Lewis i gysylltu gyda Chyngor Sir Gâr.

Mi oedd rhaid gohirio ambell ddigwyddiad yn y pentref yn sgil cau'r hewl.

**Unrhyw faterion arall**

Dim materion arall

**9. Taliadau**

Cyflog Clerc (mis Awst)– R.W. Maskell - £83.37

Cyflog Clerc (mis Medi) – R.W. Maskell - £83.37

I Williams (Padiau Defib) - £216.00

HMRC - £20.80

Costau Teithio'r Clerc – R.W. Maskell - £51.10

Terfynwyd y Cyfarfod am 8.50yh. Cyfarfod nesaf i'w gynnal ar nos Iau, 21ain o Dachwedd am 7.30yh yn Neuadd Talog.